



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LIC23-12

**Canllawiau Statudol y Ddyletswydd Ansawdd 2023
a Safonau Ansawdd 2023**

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2023

Dyddiad cyhoeddi: 1 Ebrill 2023

CYNNWYS

	Rhif y dudalen
Geirfa	3
Rhagair	4
1 Cyflwyniad	6
2 Diben y canllawiau	8
3 Y cefndir deddfwriaethol	9
4 Y cyd-destun polisi a strategol	12
5 I bwy mae'r ddyletswydd ansawdd yn gymwys?	15
6 Diffinio ansawdd	20
7 Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal	27
8 Bodloni'r ddyletswydd ansawdd	29
9 Gofynion adrodd ar ansawdd	33
10 Gwneud penderfyniadau, monitro a sicrwydd	37
11 Y Gymraeg	39
12 Casgliad	40

Ffigur 1

Diagram sy'n dangos y cylch rheoli ansawdd

Ffigur 2

Diagram sy'n dangos cyd-destun strategol canolog y ddyletswydd ansawdd

Ffigur 3

Diagram sy'n dangos y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal

Dehongli - yn y canllawiau hyn:

- Ystyr “Deddf 2003” yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.
- Ystyr “gofal iechyd” at ddibenion Deddf 2003 yw (a) gwasanaethau a ddarperir i unigolion ar gyfer neu mewn cysylltiad ag atal, canfod neu drin salwch; a (b) hybu a diogelu iechyd y cyhoedd.
- Ystyr “Deddf 2006” yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.
- Ystyr “y Ddeddf” yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.
- Ystyr “corff GIG”, yng nghyd-destun y ddyletswydd ansawdd yng Nghymru, yw:
 - (a) Bwrdd Iechyd Lleol.
 - (b) Ymddiriedolaeth GIG.
 - (c) Awdurdod Iechyd Arbennig Cymru-yn-unig.
- Pan ddefnyddir y gair **rhaid**, mae’n cyfeirio at gamau gweithredu sy’n ofyniad cyfreithiol, fel y nodir yn Rhan 2 o’r Ddeddf;
- Mae Rhan 2 o’r Ddeddf yn diwygio Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i fewnosod darpariaethau newydd 1A, 12A, 20A a 24A yn Neddf 2006. At ddibenion y darpariaethau newydd hynny:
 - Ystyr “gwasanaethau iechyd” yw unrhyw wasanaethau a ddarperir neu a sicrheir yn unol â Deddf 2006;
 - Mae “ansawdd” yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ansawdd o ran –
 - (a) Effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd,
 - (b) Diogelwch gwasanaethau iechyd,
 - (c) Profiad unigolion y darperir gwasanaethau iechyd iddynt.

RHAGAIR

Mae cyflwyno dyletswydd ansawdd drwy Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020¹ ('y Ddeddf'), yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wasanaethau iechyd diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ansawdd drosfwaol ar Weinidogion Cymru o ran eu swyddogaethau sy'n ymwneud ag iechyd. Mae'n ehangu'r ddyletswydd bresennol ar gyfrif GIG (Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru).

Yn y pen draw, pwrpas y ddyletswydd ansawdd yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru a chyfrif GIG yn sicrhau gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Mae'r ddyletswydd yn cynrychioli ein huchelgais o sicrhau safonau uwch fyth o wasanaethau iechyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yng Nghymru.

Mae ansawdd yn golygu mwy na dim ond bodloni safonau gwasanaeth. Mae angen iddo fod yn ffordd o weithio ar draws y system i ddiwallu anghenion y boblogaeth mewn modd parhaus, ddibynadwy a chynaliadwy. Mae diwylliant o ddysgu a gwella parhaus yn hollbwysig.

Wrth gyflawni'r ddyletswydd ansawdd, mae'n ofynnol i gyfrif GIG ystyried y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal wrth wneud penderfyniadau am wasanaethau iechyd fel bod gwell canlyniadau'n cael eu sicrhau. Mae hyn yn cefnogi'r pum ffordd o weithio (hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal) yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015² yn ogystal â hyrwyddo nod llesiant Cymru Iachach³. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ystyried y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal wrth gynnal adolygiadau o ddarpariaeth gofal iechyd gan gyfrif GIG ac ar eu cyfer, o dan adran 70 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd a Safonau Cymunedol) 2003. Yn ymarferol, mae'r rôl o gynnal adolygiadau ac ymchwiliadau o'r fath yn cael ei gwneud gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar ran Gweinidogion Cymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch⁴ ym mis Medi 2021. Y bwriad oedd i hyn fod yn gam tuag at y dyletswyddau newydd o ran ansawdd a gonestrwydd o dan y Ddeddf wrth i ni ddod allan o bandemig y coronafeirws.

Er mwyn meithrin cysylltiadau clir rhwng y ddyletswydd ansawdd a'r safonau, mae'r canllawiau hyn bellach yn ymgorffori'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal newydd a fydd yn disodli'r Safonau Iechyd a Gofal a gyhoeddwyd yn 2015⁵. Mae'r dull newydd

¹ Llywodraeth Cymru (2020) Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 <https://www.legislation.gov.uk/cy/asc/2020/1/contents>

² Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol <https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/>

³ Llywodraeth Cymru (2019) Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol <https://www.llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol>

⁴ Llywodraeth Cymru (2021) Fframwaith Ansawdd a Diogelwch: Dysgu a Gwella <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/fframwaith-ansawdd-a-diogelwch-dysgu-a-gwella.pdf>

⁵ Llywodraeth Cymru (2015) Safonau Iechyd a Gofal

hwn yn gosod fframwaith clir a syml ar gyfer rheoli ansawdd a fydd yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y ddyletswydd, y safonau a'r broses rheoli ansawdd ehangach yng ngwasanaethau iechyd Cymru.

Rwy'n falch mai 'Rhoi ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth arall' yw'r gwerth craidd cyntaf a ddisgrifir yn "Cymru Iachach", sef ein strategaeth hirdymor ar gyfer iechyd a gofal integredig yng Nghymru. Fel y dywedodd Dr Tedros Adhanom Ghebreyesus, Cyfarwyddwr Cyffredinol Sefydliad Iechyd y Byd, yn ddiweddar "Nid yw ansawdd yn digwydd heb ymdrech. Mae'n gofyn am weledigaeth, cynllunio, buddsoddi, tosturi, gweithredu'n fanwl a monitro trylwyr, o'r lefel genedlaethol i'r clinigau lleiaf, mwyaf anghysbell."⁶

Mae gennym gyfle arwyddocaol i adnewyddu a chryfhau ein hymrwymiad i "Cymru Iachach" drwy'r ddyletswydd ansawdd newydd. Mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau gwell ansawdd gwasanaethau a chanlyniadau i'n poblogaeth.

Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/safonau-iechyd-a-gofal-ebrill-2015.pdf>

⁶ Sefydliad Iechyd y Byd (2022) Fundamentals of Quality <https://qualityhealthservices.who.int/quality-toolkit/new-to-health-system-quality-thinking/fundamentals-of-quality>

1. Cyflwyniad

- 1.1 Bydd y ddyletswydd ansawdd, fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (“y Ddeddf”) yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023. Mae’n gyfrwng ar gyfer gwella a diogelu iechyd, gofal a llesiant poblogaeth Cymru nawr ac yn y dyfodol. Nod y Ddeddf yw rhoi llais cryfach i ddinasyddion a gwella atebolrwydd gwasanaethau i ddarparu profiad ac ansawdd gofal gwell. Bydd gwneud hynny’n cyfrannu at wlad iach a mwyn ffyniannus. Bwriedir i’r Ddeddf fod o fudd cadarnhaol i bawb yng Nghymru, gan gefnogi diwylliant a’r amodau sydd eu hangen i ysgogi gwelliannau mewn gofal iechyd.
- 1.2 Mae dau ddiben i’r ddogfen hon, sef darparu canllawiau statudol sydd â’r nod o helpu cyrff GIG yng Nghymru i gyflawni gofynion y ddyletswydd ansawdd, a nodi’r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal a ddyroddir o dan adran 47(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003. Mae ddyletswydd ar gyfrff GIG i ystyried y safonau hyn wrth gyflawni’r ddyletswydd ansawdd.
- 1.3 Mae’r sail gyfreithiol ar gyfer y ddyletswydd ansawdd wedi’i nodi yn Rhan 2 o’r Ddeddf.
- 1.4 Mae’r ddyletswydd ansawdd yn cefnogi pawb yng Nghymru. Mae’r ddyletswydd ansawdd newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a chyrff GIG feddwl a gweithredu’n wahanol drwy gymhwyso’r cysyniad o “ansawdd” ar draws pob swyddogaeth yng nghyd-destun y gwasanaeth iechyd ac anghenion iechyd eu poblogaethau. Mae’n gofyn am wneud penderfyniadau a chynllunio ar sail ansawdd, er mwyn sicrhau canlyniadau gwell yn y pen draw i bawb y mae angen gwasanaethau iechyd arnynt. Mae’n gofyn am gynnwys pobl mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt, gan gydbwyso anghenion tymor byr â chynllunio ar gyfer y tymor hwy, gyda chmau gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
- 1.5 Mae’r ddyletswydd hefyd yn cefnogi defnyddio egwyddorion gofal iechyd darbodus sy’n seiliedig ar werth, y cyfeirir atynt yn y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol⁷ fel ‘arferion darbodus’. Mae hyn yn newid y ffocws yn gynyddol at ofal sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy’n gallu helpu pobl i gadw’n iach ac i reoli eu cyflyrau eu hunain a, phan fo angen, yn gallu darparu cymorth arbenigol priodol a di-dor. Mae’r ffocws ar y person yn hytrach na’r lleoliad lle caiff y gwasanaeth ei ddarparu.
- 1.6 Mae gofal iechyd seiliedig ar werth⁸ yn ein hannog i ganolbwyntio ar gyflawni nodau ein cleifion a helpu i reoli disgwyliadau drwy gydol eu gofal neu eu

⁷ Llywodraeth Cymru (2021) Fframwaith Clinigol Cenedlaethol: System Iechyd a Gofal sy’n Dysgu https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-05/fframwaith-clinigol-cenedlaethol-system-iechyd-a-gofal-syn-dysgu-update_0.pdf

⁸ Gofal Iechyd sy’n Seiliedig ar Werth (2022) Gofal Iechyd sy’n Seiliedig ar Werth i Gymru <https://gisw.gig.cymru/gofal-iechyd-syn-seiliedig-ar-werth-i-gymru/polisi-a-diwylliant/>

triniaeth. Mae gwerth mewn iechyd yn ein hannog i wella'r ffordd y mae cleifion yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael, gan osgoi unrhyw amrywiad diangen mewn gofal, a dod yn fwy creadigol i benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio ein hadnoddau i wella canlyniadau cleifion. Drwy weithio gyda chleifion a thimau ym mhob rhan o'r system gofal iechyd yng Nghymru, a chydweithio â diwydiant a'r trydydd sector, gallwn sicrhau'r canlyniadau sy'n bwysig i bobl gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni mewn ffordd gynaliadwy.

- 1.7 Y bwriad yw adeiladu ar y diwylliant cadarnhaol o ansawdd sydd wrth wraidd system iechyd Cymru⁹, gan weithredu dyletswydd ansawdd ehangach ar draws y system sy'n cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau, gweithredu, gwella ac, yn y pen draw, gwell canlyniadau i'r boblogaeth.

⁹ Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) Reviews of Health Care Quality: United Kingdom 2016: Raising Standards
https://www.oecd-ilibrary.org/social-issues-migration-health/oecd-reviews-of-health-care-quality-united-kingdom-2016_9789264239487-en

2. Diben y canllawiau

- 2.1 Gwella ansawdd ein gwasanaethau er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i bobl yw'r peth iawn i'w wneud.
- 2.2 Mae'r canllawiau yn nodi'r arferion gorau i helpu cyrff GIG i weithredu a chymhwyso'r ddyletswydd ansawdd. Rhaid i gyrff GIG roi sylw i'r canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.
- 2.3 Mae'r canllawiau'n darparu sylfaen ar gyfer adeiladu systemau rheoli ansawdd, polisiau a gweithdrefnau perthnasol, gofynion hyfforddi a chefnogi. Mae'n hwyluso eglurder ynghylch dyletswydd ansawdd, cysondeb dull gweithredu a thegwch yr ymateb i wella ansawdd gwasanaethau iechyd a gwella canlyniadau i bobl.
- 2.4 Mae'r canllawiau yn nodi diffiniad o ansawdd ac yn disgrifio'r gofynion trosfwaol i gryfhau ein systemau rheoli ansawdd drwy wneud penderfyniadau a chynllunio ar sail ansawdd. Yn ei dro, mae hyn yn cryfhau dyletswyddau i ddysgu ac yn creu cyfleoedd i rannu'r hyn a ddysgir. Diben y ddyletswydd yn gyffredinol yw gwella canlyniadau i'n poblogaeth.
- 2.5 Bwriedir iddynt fod yn gyfeirbwynt i'n gweithlu yn ogystal â'n poblogaeth a'n sefydliadau partner er mwyn i ni allu meithrin dealltwriaeth gyffredin o'r ddyletswydd ansawdd.
- 2.6 Ni fwriedir i'r ddogfen fod yn un gyfarwyddol nac yn llawlyfr ansawdd neu ganllaw cam wrth gam. Yn y pen draw, mater i gyrff GIG yw eu bodloni eu hunain eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd i sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd a orfodir arnynt yn Neddf 2006, er y rhagwelir y bydd y canllawiau hyn yn darparu fframwaith defnyddiol i gynorthwyo cyrff o'r fath yn unol â hynny. Ar ben hynny, mae'r ddogfen ganllaw hon hefyd yn nodi Safonau Iechyd a Gofal newydd a fydd yn disodli'r Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a ddyroddwyd o dan adran 47(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (sy'n bŵer sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiadau safonau mewn perthynas â darparu gofal iechyd). Bydd yn ofynnol i gyrff GIG ystyried y safonau newydd hyn er mwyn cyflawni'r ddyletswydd ansawdd. Yn ogystal, mae'n ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru ystyried y safonau newydd hyn wrth gynnal adolygiadau o, ac ymchwiliadau i, ddarparu gofal iechyd gan gyrff GIG ac ar eu cyfer o dan adran 70 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003. Yn ymarferol, mae'r gwaith o gynnal adolygiadau ac ymchwiliadau o'r fath yn cael ei wneud gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar ran Gweinidogion Cymru.
- 2.7 Cydnabyddir y bydd angen monitro gweithrediad y ddyletswydd ansawdd dros nifer o flynyddoedd er mwyn penderfynu ar ei llwyddiant. Bydd angen i Weinidogion Cymru a chyrff GIG allu dangos y camau y maent wedi'u cymryd i wella ansawdd gwasanaethau, ar y cyd â'r ddyletswydd i asesu a monitro'r gweithredu.

- 2.8 I'r perwyl hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru a chyrrff GIG gyhoeddi adroddiad ansawdd blynyddol ar y camau y maent wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd ansawdd.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Prif ddiben Rhan 2 o'r Ddeddf yw ailfframio ac ehangu'r ddyletswydd ansawdd a nodwyd gyntaf yn adran 45(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003¹⁰ ("Deddf 2003"). Mae adran 45(1) o Ddeddf 2003 yn gosod dyletswydd ar gyrff GIG yng Nghymru i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i fonitro a gwella ansawdd y gofal iechyd¹¹ a ddarperir gan y cyrrff hynny neu ar eu cyfer.
- 3.2 Mae adran 45(1) o Ddeddf 2003 yn cael ei diddymu a'i disodli gan ddyletswydd ddiwygiedig i sicrhau ansawdd mewn gwasanaethau iechyd yn adrannau 1A (dyletswydd Gweinidogion Cymru), 12A (dyletswydd Bwrdd Iechyd Lleol), 20A (dyletswydd Ymddiriedolaeth GIG) a 24A (dyletswydd Awdurdod Iechyd Arbennig) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006¹² ("Deddf 2006"). Bydd Deddf 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ran 2 o'r Ddeddf) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrrff hynny gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y camau y maent wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd ansawdd.
- 3.3 Mae Deddf 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ran 2 o'r Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i gyrff GIG yng Nghymru mewn perthynas â'r ddyletswydd ansawdd a'r gofyniad i gyhoeddi adroddiad blynyddol. Felly, dyroddir y ddogfen ganllawiau hon gan Weinidogion Cymru o dan Adrannau 12A (5), 20A (5) a 24A (5) o Ddeddf 2006 yn unol â'r gofyniad hwnnw. Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd, sydd hefyd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon, yn cael eu dyroddi o dan y pwerau yn adran 47 o Ddeddf 2003 (gweler rhagor am hynny ym mharagraff 3.9 isod).
- 3.4 Mae'r ddyletswydd ansawdd ddiwygiedig (sydd hefyd yn gymwys i Weinidogion Cymru, yn ogystal â chyrrff GIG) yn ailfframio'r cysyniad o "ansawdd" drwy sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio yn ei ddiffiniad ehangach. Mae ansawdd yn cynnwys effeithiolrwydd a diogelwch gwasanaethau iechyd ac ansawdd profiad defnyddwyr gwasanaethau iechyd. Fodd bynnag, nid yw wedi'i gyfyngu i ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i unigolyn nac i safonau gwasanaeth. Mae'n ymwneud â sicrhau gwelliant yn ansawdd "gwasanaethau iechyd" sy'n golygu unrhyw wasanaethau a ddarperir neu a sicrheir yn unol â Deddf 2006. Yn unol â hynny, mae'r ddyletswydd ddiwygiedig yn bwriadu i ansawdd fod yn ffordd o weithio ar draws y system, gan ganolbwyntio ar y bwriad o wella

¹⁰ Llywodraeth y DU (2003) Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/43/contents>

¹¹ At ddibenion Deddf 2003, ystyr "gofal iechyd" yw (a) gwasanaethau a ddarperir i unigolion ar gyfer neu mewn cysylltiad ag atal, canfod neu driniaeth neu salwch; a (b) hybu a diogelu iechyd y cyhoedd.

¹² Llywodraeth y DU (2006) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru). <https://www.who.int/publications/i/item/9789240011632>

canlyniadau. Mae gosod y ddyletswydd newydd yn Neddf 2006 yn adlewyrchu'r pwysigrwydd y mae Gweinidogion Cymru yn ei roi ar y ddyletswydd ehangach newydd, a bwriad Gweinidogion Cymru i gryfhau a gwreiddio ansawdd ymhellach yn y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer gwasanaethau iechyd.

- 3.5 Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i gyflawni eu swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth iechyd gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd¹³.
- 3.6 Mae gan Fyrddau Iechyd Lleol¹⁴, Ymddiriedolaethau GIG¹⁵ ac Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru¹⁶ ddyletswydd i gyflawni **pob un** o'u swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd. Mae'r ddyletswydd ansawdd, felly, yn gymwys i'r holl swyddogaethau clinigol ac anghlinigol.
- 3.7 Mae ailfframio a chryfhau'r ddyletswydd ansawdd yn gam pellach ar y daith tuag at safonau cyson uwch o wasanaethau iechyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yng Nghymru.
- 3.8 Mae Rhan 2 o'r Ddeddf hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adran 47 ac adran 70 o Ddeddf 2003.
- 3.9 Mae adran 47(1) o Ddeddf 2003 yn caniatáu i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi datganiadau safonau mewn perthynas â darparu gofal iechyd gan gyrrff GIG Cymru ac ar eu cyfer. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru barhau i gadw golwg ar y safonau a chânt gyhoeddi datganiadau diwygiedig pryd bynnag y maent o'r farn fod hynny'n briodol. Cyhoeddwyd y safonau diwethaf o dan y ddarpariaeth hon ym mis Ebrill 2015¹⁷. Roedd adran 47(4) o Ddeddf 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff GIG yng Nghymru ystyried y safonau a nodir mewn datganiadau wrth gyflawni ei ddyletswydd o dan adran 45 o Ddeddf 2003. Gan fod adran 45(1) wedi'i diddymu, mae adran 47(4) wedi'i diwygio fel bod y safonau a nodir mewn datganiadau i gael eu hystyried gan gorff GIG Cymru wrth gyflawni'r ddyletswydd ansawdd ddiwygiedig yn Neddf 2006.
- 3.10 Yn unol â dyletswydd Gweinidogion Cymru i adolygu a'r pŵer yn adran 47 o Ddeddf 2003 i gyhoeddi datganiadau diwygiedig o safonau, mae'r Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) yn cael eu tynnu'n ôl a'u disodli gan y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal a nodir yn y canllawiau hyn ac sy'n cyd-fynd â'r ddyletswydd ansawdd newydd. Mae hyn er mwyn adlewyrchu'r berthynas annatod sy'n bodoli rhwng y ddyletswydd ansawdd a'r safonau.
- 3.11 Ar ben hynny, mae adran 70(1) o Ddeddf 2003 yn nodi bod gan Weinidogion Cymru y swyddogaeth o gynnal adolygiadau ac ymchwiliadau i ddarpariaeth

¹³ Adran 1A o Ddeddf 2006

¹⁴ Adran 12A o Ddeddf 2006

¹⁵ Adran 20A o Ddeddf 2006

¹⁶ Adran 24A o Ddeddf 2006

¹⁷ Llywodraeth Cymru (2015) Safonau Iechyd a Gofal

<https://www.llyw.cymru/safonau-iechyd-gofal>

gofal iechyd gan gyrff GIG Cymru ac ar eu cyfer. Yn ymarferol, cyflawnir y swyddogaeth hon gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae adran 70(3) o Ddeddf 2003 hefyd yn gosod swyddogaeth benodol o gynnal adolygiadau o'r trefniadau a wneir gan gyrff GIG Cymru at ddibenion cyflawni'r ddyletswydd ansawdd. Mae adran 70(3) wedi'i diwygio fel bod hyn yn ymwneud â'r ddyletswydd ansawdd ddiwygiedig o dan Ddeddf 2006. Mae adran 70(4) o Ddeddf 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried y safonau a gyhoeddwyd o dan adran 47 wrth arfer eu swyddogaethau o dan adran 70.

Negeseuon allweddol


- Prif bwrpas y Ddeddf yw ailfframio ac ehangu'r ddyletswydd ansawdd a nodwyd gyntaf yn Neddf 2003
- Diddymir y ddyletswydd ansawdd a nodir yn adran 45(1) o Ddeddf 2003 a'i disodli gan ddyletswydd ddiwygiedig i sicrhau ansawdd mewn gwasanaethau iechyd yn Neddf 2006
- Mae'r ddyletswydd ddiwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflawni eu swyddogaethau sy'n ymwneud ag iechyd gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd
- Mae'r ddyletswydd ddiwygiedig hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff GIG gyflawni eu holl swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd
- Mae'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adran 47 ac adran 70 o Ddeddf 2003 fel bod unrhyw safonau a ddyroddir o dan Ddeddf 2003 yn cael eu hystyried gan gyrff GIG wrth gyflawni'r ddyletswydd ansawdd ddiwygiedig yn Neddf 2006, a bod gan Weinidogion Cymru y swyddogaeth o gynnal adolygiadau o'r camau a gymerwyd gan gorff GIG at ddibenion cyflawni'r ddyletswydd ansawdd ddiwygiedig. Mae'r swyddogaeth olaf wedi'i dirprwyo i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.
- Mae'r Safonau Iechyd a Gofal (2015) a ddyroddwyd o dan adran 47 o Ddeddf 2003 yn cael eu tynnu'n ôl a'u disodli gan y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal i adlewyrchu'r berthynas anorfod rhwng y ddyletswydd ansawdd a'r safonau.

4. Y cyd-destun polisi a strategol


- 4.1 Mae Cymru lachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (“Cymru lachach”) yn nodi'r weledigaeth ar gyfer dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- 4.2 Mae'n nodi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnydd a gwelliant ac yn disgrifio'r gwerthoedd craidd sy'n sail i'r GIG yng Nghymru, sef:
 - Rhoi ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth arall
 - Integreiddio gwelliannau i waith bob dydd
 - Canolbwyntio ar atal, gwella iechyd ac anghydraddoldeb
 - Gweithio mewn partneriaethau go iawn
 - Buddsoddi yn ein staff
- 4.3 Mae'r Ddeddf yn cefnogi uchelgeisiau Cymru lachach drwy nodi'r gofynion ar gyfer gwella ansawdd gwasanaethau iechyd.
- 4.4 Mae'r Ddeddf yn disgrifio bod ansawdd yn cynnwys, ond nad yw'n gyfyngedig i, ddiogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd a phrofiad unigolion sy'n derbyn gwasanaethau iechyd.
- 4.5 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch ym mis Medi 2021¹⁸.
- 4.6 Mae'n rhoi trosolwg o'r trefniadau a'r egwyddorion ansawdd y mae angen eu sefydlu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu.
- 4.7 Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r GIG sefydlu systemau rheoli ansawdd effeithiol sy'n canolbwyntio ar ddysgu ac sy'n cael eu gyrru gan eu byrddau. Mae'n egluro sut mae'n rhaid i Reoli Ansawdd, Cynllunio Ansawdd, Gwella Ansawdd a Sicrhau Ansawdd gydweithio i ffurfio'r system rheoli ansawdd sy'n ofynnol.
- 4.8 Y bwriad oedd i'r Fframwaith fod yn gam tuag at y ddyletswydd ansawdd newydd.

¹⁸ Llywodraeth Cymru 2021 Fframwaith Ansawdd a Diogelwch - dysgu a gwella. <https://llyw.cymru/fframwaith-ansawdd-diogelwch-y-gig>

Ffigur 1
Diagram sy'n dangos y cylch rheoli ansawdd fel y cyfeirir ato yn Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Llywodraeth Cymru (2021).



Ffigur 2
Diagram sy'n dangos cyd-destun strategol canolog Cymru lachach ochr yn ochr â'r ddyletswydd ansawdd, y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol a'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch



Negeseuon allweddol

- Rhaid inni roi ansawdd a diogelwch ein gwasanaethau iechyd uwchlaw popeth arall
- Mae'r ddyletswydd ansawdd yn dylanwadu ar lawer o bolisiâu a fframweithiau sy'n gysylltiedig ag iechyd
- Yn eu tro, mae'r rhain hefyd yn effeithio ar sut rydym yn mynd ati i ddarparu ansawdd mewn gwasanaethau gofal iechyd
- Mae cryfhau ein system rheoli ansawdd yn ein helpu i wneud yn siŵr bod ein penderfyniadau'n canolbwyntio ar wella ansawdd gwasanaethau iechyd

5. I bwy mae'r ddyletswydd ansawdd yn gymwys?

5.1 Mae'r Ddeddf yn rhestru'r canlynol (unigolion a chyrff GIG yng Nghymru) fel rhai sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn rhan 2 o'r Ddeddf:

- Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â'u swyddogaethau iechyd).
- Byrddau Iechyd Lleol.
- Ymddiriedolaethau GIG.
- Awdurdodau Iechyd Arbennig sy'n gweithredu yng Nghymru yn unig.

5.2 Y ddyletswydd ansawdd a Gweinidogion Cymru

Mae gan Weinidogion Cymru, o ran eu swyddogaethau sy'n ymwneud ag iechyd, gyfrifoldeb dros oruchwylio'r GIG yng Nghymru. Rhaid iddynt sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn cael eu trefnu a'u darparu mewn modd sy'n sicrhau gwelliant parhaus ar draws y system yn ansawdd gwasanaethau iechyd.

5.3 Bydd rhaid i Weinidogion Cymru fynd ati i ystyried a yw eu penderfyniadau mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd yn cael eu gwneud gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd.

5.4 Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod gan gyrff cenedlaethol sydd â chyfrifoldebau rheoleiddio, rheoli perfformiad neu gefnogi ddull cydlynol a chydweithredol ar gyfer gwella ar draws y system gyfan.

5.5 Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i gyrff GIG mewn perthynas â'r gofyniad i gyflawni eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd, a'r gofyniad i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y camau y maent wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon. Mae'r olaf yn cael ei ddisgrifio yn adran 9 Gofynion adrodd.

5.6 Mae'n ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y camau y maent wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd gyda'r bwriad o sicrhau gwelliant yn ansawdd y gwasanaeth iechyd ac, o fewn yr adroddiad hwnnw, i gynnwys asesiad o hyd a lled unrhyw welliant mewn canlyniadau a gyflawnir yn rhinwedd y camau hynny.

5.7 Y ddyletswydd ansawdd a chyrff GIG

Mae'r GIG yng Nghymru yn darparu gwasanaethau gofal drwy 7 Bwrdd Iechyd Lleol a 3 Ymddiriedolaeth GIG.

5.8 Mae'r Ymddiriedolaethau a'r Byrddau Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth â 2 Awdurdod Iechyd Arbennig – Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

5.9 Mae nifer o Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yn cynnal sefydliadau cenedlaethol sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd. Wrth gynnal y sefydliadau cenedlaethol, mae'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yn cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â'r

gwasanaeth iechyd ac felly rhaid iddynt wneud hynny gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd. Rhaid i'r sefydliadau a gynhelir gydymffurfio â'r ddyletswydd ansawdd yn unol â threfn lywodraethiant eu trefniadau cynnal.

5.10 Mae'r ddyletswydd ansawdd yn gymwys i Fyrddau Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG yn eu hardaloedd gyda'r nod o wneud y canlynol:

- Gwella canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol.
- Hybu lles.
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd ar draws eu poblogaeth.
- Comisiynu gwasanaethau oddi wrth sefydliadau eraill i ddiwallu anghenion eu preswylwyr.

5.11 Mae gan y ddwy Ymddiriedolaeth GIG a'r ddau Awdurdod Iechyd Arbennig eu cyfrifoldebau penodol eu hunain o ran darparu gwasanaethau y bydd y ddyletswydd ansawdd yn gymwys iddynt.

5.12 Prif Weithredwyr cyrff GIG sy'n atebol yn y pen draw am gydymffurfio â'r ddyletswydd ansawdd.

5.13 Yn yr un modd â deddfwriaeth arall, argymhellir bod cyrff GIG yn dynodi uwch-arweinwyr priodol i fod yn gyfrifol am weithredu a goruchwyllo'r ddyletswydd ansawdd yn strategol. Dylid dirprwyo'r cyfrifoldeb i swyddog-aelod o'r bwrdd i sicrhau'r gweithredu a'r goruchwyllo strategol angenrheidiol. Fodd bynnag, dylid nodi bod y cyfrifoldeb i sicrhau bod ystyriaeth briodol i'r ddyletswydd ansawdd yn gymwys i holl aelodau'r bwrdd sy'n swyddogion a'r rhai nad ydynt yn swyddogion wrth gyflawni swyddogaethau o fewn eu rolau.

5.14 Argymhellir hefyd cael arweinydd gweithredol dynodedig i gefnogi'r gwaith o weithredu'r ddyletswydd ansawdd.

5.15 Mae gan holl aelodau'r Bwrdd gyfrifoldeb ar y cyd i gefnogi'r Prif Weithredwr i wneud y canlynol:

5.15.i) cydymffurfio â'r ddyletswydd ansawdd drwy drefniadau llywodraethiant a sicrwydd mewnol sydd wedi'u strwythuro o fewn system rheoli ansawdd gadarn;

5.15.ii) sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn cael eu trefnu a'u darparu mewn modd sy'n sicrhau gwelliannau parhaus ar draws y system yn ansawdd gwasanaethau iechyd;

5.15.iii) mynd ati i ystyried a fydd penderfyniadau'r Bwrdd yn gwella ansawdd y gwasanaeth ac yn sicrhau gwelliant mewn canlyniadau i'r boblogaeth;

5.15.iv) dangos sut y maent wedi cyflawni eu swyddogaethau ac wedi gwella ansawdd gwasanaethau yn unol â'r ddyletswydd ansawdd. Disgrifir hyn yn adran 9 Gofynion adrodd ar ansawdd.

5.16 Mae'r ddyletswydd ansawdd yn gymwys i holl swyddogaethau'r gwasanaeth iechyd mewn lleoliadau clinigol ac anghlinigol. Felly, mae'r holl staff yn gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd yn eu rôl a'u swyddogaeth gwasanaeth. Mae'n gyfrifoldeb ar y cyd i gydymffurfio â'r ddyletswydd ansawdd.

5.17 Y ddyletswydd ansawdd mewn gwasanaethau a gomisiynir

Cydnabyddir y gall gwasanaethau iechyd gael eu darparu ar draws ffiniau daearyddol drwy drefniadau comisiynu gyda darparwyr gwasanaethau sy'n rhan o'r GIG a rhai nad ydynt yn rhan o'r GIG. Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig gyflawni eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd. Mae'r corff GIG sy'n comisiynu'r gwasanaeth iechyd yn cyflawni ei swyddogaethau ac felly rhaid iddo sicrhau ei fod yn gwneud hynny gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd y gwasanaeth iechyd. Ni waeth pwy sy'n darparu gwasanaethau iechyd pan gânt eu comisiynu, cyfrifoldeb y corff comisiynu yw'r ddyletswydd.

5.17.i) Gwasanaethau a gomisiynir gan gorff GIG oddi wrth gorff GIG arall yng Nghymru:

Mae'r corff GIG sy'n comisiynu'r gwasanaeth iechyd yn cyflawni ei swyddogaethau a rhaid iddo sicrhau ei fod yn gwneud hynny gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd y gwasanaeth iechyd. Cyfrifoldeb y corff comisiynu yw'r ddyletswydd ansawdd. Bydd y corff comisiynu'n dymuno sicrhau y bydd gwasanaethau iechyd a ddarperir gan y darparwr amgen yn sicrhau gwelliant yn ansawdd y gwasanaethau iechyd. Rhaid i'r corff GIG yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau ar ran y comisiynydd hefyd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd a fydd hefyd yn gymwys iddo yn uniongyrchol ar gyfer y gwasanaethau y mae'n eu darparu.

5.17.ii) Gwasanaethau a ddarperir gan wasanaethau meddygol deintyddol, optegol a fferyllol sylfaenol yng Nghymru:

Yn unol â Deddf 2006, rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol fodloni pob gofyniad rhesymol i ddarparu gwasanaethau meddygol, deintyddol, optegol a fferyllol sylfaenol yn ei ardal. Mae'r Byrddau Iechyd Lleol yn ymrwymo i drefniadau gyda darparwyr gofal sylfaenol ar gyfer darparu gwasanaethau gofal sylfaenol i roi'r ddyletswyddau hynny ar waith. Nid yw'r ddyletswydd ansawdd yn gymwys yn uniongyrchol i ddarparwyr gofal sylfaenol. Y Byrddau Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am y ddyletswydd ansawdd i sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd, ac mae hyn yn estyn i'r gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr gofal sylfaenol ar ran y Bwrdd Iechyd Lleol. Felly, rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol arfer eu ddyletswyddau mewn perthynas â gofal sylfaenol, gyda'r nod o sicrhau ansawdd wrth ddarparu gwasanaethau.

5.17.iii) Gwasanaethau a gomisiynir oddi wrth gyrff nad ydynt yn rhan o'r GIG:

Mae'r corff GIG sy'n comisiynu'r gwasanaeth iechyd oddi wrth ddarparwr annibynnol yn cyflawni ei swyddogaethau a rhaid iddo sicrhau ei fod yn gwneud hynny gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd y gwasanaeth iechyd. Cyfrifoldeb y corff GIG sy'n comisiynu yw'r ddyletswydd ansawdd. Bydd y corff comisiynu'n dymuno sicrhau y bydd gwasanaethau iechyd a ddarperir gan y darparwr amgen neu annibynnol yn sicrhau gwelliant yn ansawdd y gwasanaethau iechyd. Gallai hyn fod yn ystyriaeth mewn trefniadau contractio.

5.17.iv) Gwasanaethau a gomisiynir y tu allan i Gymru:

Mae'r corff GIG yng Nghymru sy'n comisiynu'r gwasanaeth iechyd yn cyflawni ei swyddogaethau a rhaid iddo sicrhau ei fod yn gwneud hynny gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd y gwasanaeth iechyd. Bydd y corff comisiynu'n dymuno sicrhau y bydd gwasanaethau iechyd a ddarperir gan y darparwr amgen yn sicrhau gwelliant yn ansawdd y gwasanaethau iechyd. Bydd y darparwr gwasanaeth yn gyfrifol am ansawdd y gwasanaethau iechyd y mae'n eu darparu'n uniongyrchol o dan yr awdurdodaeth berthnasol y darperir y gwasanaethau ynddi.

- 5.18 Mae cyfrifoldeb ar Weinidogion Cymru a chyrff GIG i annog dysgu ac arbenigedd ar y cyd wrth iddynt symud ymlaen ar eu taith i wella ansawdd. Gellir dysgu llawer hefyd o systemau gofal sy'n perfformio'n dda yn fyd-eang.
- 5.19 Mae angen sicrhau ar bob lefel fod gan y systemau iechyd yr adnoddau, y capasiti, yr amser a'r ymreolaeth sydd eu hangen arnynt i ddatblygu eu dulliau o wella ansawdd. Cefnogir hyn gan Sefydliad Iechyd y Byd yn canllaw *Quality health services: a planning guide in the foundational requirements for quality initiatives*¹⁹.

¹⁹ Sefydliad Iechyd y Byd (2020) Quality Health Service: a planning guide
<https://www.who.int/publications/i/item/9789240011632>

Negeseuon allweddol

- Mae'r ddyletswydd ansawdd yn gymwys i Weinidogion Cymru (o ran eu swyddogaethau sy'n ymwneud ag iechyd)
- Mae'r ddyletswydd ansawdd hefyd yn gymwys i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig sy'n gweithredu yng Nghymru yn unig
- Mae atebolrwydd am y ddyletswydd ansawdd yn y pen draw yn nwylo Prif Weithredwr corff GIG a all ddynodi swyddog arweiniol ac uwch-arweinydd gweithredol i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r ddyletswydd yn y sefydliad
- Mae holl aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol ar y cyd am weithredu'r ddyletswydd ansawdd
- Mae nifer o Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yn cynnal sefydliadau cenedlaethol sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd. Rhaid i'r sefydliadau a gynhelir gydymffurfio â'r ddyletswydd ansawdd yn unol â threfn lywodraethiant eu trefniadau cynnal. Nid yw'r ddyletswydd yn gymwys yn uniongyrchol i ddarparwyr gofal sylfaenol, darparwyr gwasanaethau iechyd y tu allan i'r GIG nac i ddarparwyr y GIG y tu allan i Gymru
- Mae cyrff GIG yn gyfrifol am gyflawni eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau y maent yn eu comisiynu oddi wrth ddarparwyr eraill
- Bydd y ddyletswydd ansawdd yn sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn cael eu trefnu a'u darparu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau gwelliant parhaus mewn ansawdd ac yn gwella canlyniadau i'r boblogaeth
- Bydd rhaid i Weinidogion Cymru a chyrff GIG fynd ati i ystyried a yw eu penderfyniadau yn gwella ansawdd gwasanaethau ac yn gwella canlyniadau
- Bydd angen i Weinidogion Cymru a chyrff GIG allu dangos, gyda thystiolaeth, sut y maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd ansawdd
- Mae gan yr holl staff rôl yn y gwaith o sicrhau gwell ansawdd gwasanaeth; mae'r ddyletswydd ansawdd yn gymwys i holl swyddogaethau'r gwasanaeth iechyd mewn lleoliadau clinigol ac anghlinigol
- Eir ati i annog dysgu a rhannu ar draws y system

6. Diffinio ansawdd

- 6.1 Mae nifer o ddiffiniadau o ansawdd sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd a gofal wedi cael eu disgrifio gan wahanol sefydliadau byd-eang, gan gynnwys y Sefydliad Gwella Gofal Iechyd²⁰ a Sefydliad Iechyd y Byd²¹.
- 6.2 At ddibenion y canllawiau hyn, ystyrir bod ansawdd yn cael ei ddiffinio fel bodloni anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu mewn modd bprhaus, dibynadwy a chynaliadwy. Wrth gyflawni hyn, bydd angen i Weinidogion Cymru a chyrrff GIG sicrhau bod gwasanaethau iechyd **yn ddiogel, yn amserol, yn effeithiol, yn effeithlon, yn deg ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn**²².
- 6.3 Bydd angen i gyrff GIG a Gweinidogion Cymru geisio deall anghenion eu poblogaeth yn barhaus er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau a sicrhau gwelliant mewn canlyniadau. Bydd gan y boblogaeth hefyd ei rhan ei hun i'w chwarae o bwydo i'r broses.

6.4 Meysydd ansawdd

Dylai Gweinidogion Cymru a chyrrff GIG sicrhau bod y penderfyniadau a wnânt yn darparu gofal sydd **yn ddiogel, yn amserol, yn effeithiol, yn effeithlon, yn deg ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn**. Mae'r dimensiynau ansawdd hyn yn darparu fframwaith i asesu ansawdd ac arwain gwelliannau. Felly, mae'n bwysig egluro beth mae'r dimensiynau ansawdd yn anelu at ei gyflawni a beth yr ydym yn bwriadu iddynt ei olygu yng Nghymru fel rhan o'r ddyletswydd ansawdd.

²⁰ Sampath B, Rakover J, Baldoza K, Mate K, Lenoci-Edwards J, Barker P. Whole System Quality: A Unified Approach to Building Responsive, Resilient Health Care Systems. IHI White Paper. Boston: Institute for Healthcare Improvement; 2021. <https://www.ihl.org/resources/Pages/IHIWhitePapers/whole-system-quality.aspx>.

²¹ Sefydliad Iechyd y Byd (2020) Quality health services: a planning guide <https://www.who.int/publications/i/item/9789240011632>

²² Institute of Medicine. *Crossing the Quality Chasm: A New Health System for the 21st Century*. Washington, D.C: National Academy Press; 2001.

6.4.1 Diogel

Diogel

Mae ein system gofal iechyd yn un o ansawdd uchel sy'n ddibynadwy ac yn ddiogel iawn. Mae'n osgoi niwed y gellir ei atal, yn gwneud y gorau o'r pethau sy'n gweithio'n iawn ac yn dysgu pan fydd pethau'n mynd o chwith er mwyn eu hatal rhag digwydd eto. Eir ati i hybu ac amddiffyn iechyd, diogelwch a lles pobl; mae risgiau'n cael eu nodi a'u monitro, a lle bo modd caiff risgiau diogelwch eu lleihau neu eu hatal. Rydym yn hybu ac yn amddiffyn llesiant a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg ar unrhyw adeg. Pan allai plant neu oedolion fod yn profi neu'n wynebu risg o gam-drin neu esgeulustod, rydym yn cymryd camau priodol ac amserol ac rhoi gwybod am bryderon.

6.4.2 Amserol

Amserol

Mae ein system gofal iechyd yn sicrhau bod pobl yn gallu cael y cyngor, yr arweiniad a'r gofal o ansawdd uchel sydd eu hangen arnynt yn gyflym ac yn rhwydd, yn y lle iawn y tro cyntaf. Rydym yn gofalu am y rheini sydd â'r angen iechyd mwyaf yn gyntaf, a phan nodir fod triniaeth yn angenrheidiol, rydym yn trin pobl ar sail eu blaenoriaeth glinigol benodol a chytunedig.

6.4.3 Effeithiol

Effeithiol

Mae ein system gofal iechyd yn sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau, y gofal a'r driniaeth yn adlewyrchu arferion gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i sicrhau bod pobl yn cael y gofal cywir er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl a'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt. Rydym yn dylunio llwybrau trawsnewidiol, oes gyfan, wedi'u seilio ar dystiolaeth, sy'n ymdrin ag atal, gofal a thriniaeth ac adsefydlu, ac yn ymgorffori'r rhain yn narpariaeth gwasanaethau lleol.

6.4.4 Effeithlon

Effeithlon

Mae ein system gofal iechyd yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar werth i wella'r canlyniadau sydd bwysicaf i bobl mewn ffordd sydd mor gynaliadwy â phosibl ac sy'n osgoi gwastraff. Rydym yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau i sicrhau'r gwerth gorau mewn ffordd effeithlon. Dim ond yr hyn sydd ei angen rydym yn ei wneud, ac wrth roi triniaethau rydym yn sicrhau bod unrhyw ymyriadau yn cynrychioli'r gwerth gorau a fydd yn gwella canlyniadau i bobl.

6.4.5 Teg

Teg

Mae ein system gofal iechyd yn rhoi cyfle cyfartal i bawb gyflawni eu potensial llawn ar gyfer bywyd iach nad yw'n amrywio o ran ansawdd yn ôl y sefydliad sy'n darparu gofal, lleoliad lle caiff gofal ei ddarparu neu nodweddion personol (megis oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hil, dewis iaith, anabledd, crefydd neu gredoau, statws economaidd-gymdeithasol neu ymlyniad gwleidyddol). Rydym yn gwreiddio cydraddoldeb a hawliau dynol yn ein system gofal iechyd.

6.4.6 Person-ganolog

Person-ganolog

Mae ein system gofal iechyd yn diwallu anghenion pobl ac yn sicrhau bod eu dewisiadau, eu hanghenion a'u gwerthoedd yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau a wneir mewn partneriaeth rhwng unigolion a'r gweithlu. Mae llesiant unigolion, eu teuluoedd, gofalwyr a'n staff yn bwysig i ni. Rydym yn sicrhau bod pawb yn cael eu trin â charedigrwydd, empathi a thosturi bob amser ac rydym yn parchu eu preifatrwydd, eu hurddas a'u hawliau dynol. Rydym wedi ymrwymo i weithio'n well gyda'n gilydd i sicrhau bod pobl a'u teuluoedd yn ganolog i benderfyniadau, gan eu gweld fel arbenigwyr sy'n gweithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol i gael y canlyniad a'r profiad gorau.

6.5 Galluogwyr ansawdd

Mae dull system gyfan o ymdrin ag ansawdd yn gofyn am ddiwylliant y mae dysgu a gwelliant parhaus yn ganolog iddo. Dylai hyn fod yn seiliedig ar ddiffiniad a dealltwriaeth glir o'r hyn y mae ansawdd da yn ei olygu, gan ddefnyddio safonau cenedlaethol a safonau wedi'u meincodi, adolygu gan gymheiriaid ac archwilio.

- 6.6 Mae dysgu gan sefydliadau sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol ac sydd â dulliau sefydledig ac effeithiol o sicrhau ansawdd yn darparu glasbrint ar gyfer yr hyn y dylai ansawdd da fod. Mae'r galluogwyr ansawdd yn sail i'r glasbrint hwn ac yn dylanwadu arno er mwyn sicrhau dull gweithredu ar draws y system i wella ansawdd.
- 6.7 Mae profiad wedi dangos bod datblygu a gwreiddio'r cysyniadau hyn yn gallu cymryd nifer o flynyddoedd. Cydnabyddir bod y diwylliant wedi bod yn gadarnhaol, a bod ansawdd yn ganolog i system iechyd Cymru²³.
- 6.8 Y galluogwyr ansawdd sy'n sail i'r glasbrint hwn er mwyn sicrhau dull gweithredu ar draws y system i wella ansawdd yw:

6.8.1 Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Mae gan ein system gofal iechyd arweinyddiaeth weladwy ac iddi ffocws, ar bob lefel, a chaiff ei gweithgareddau eu llywio gan weledigaeth a gwerthoedd y sefydliadau ar gyfer ansawdd. Mae ein harweinwyr a'n rheolwyr yn arddel agwedd hirdymor, a rhanddeiliaid yn ganolog iddi, i ddatblygu gweledigaeth sefydliadol glir. Mae ganddynt y sgiliau a'r gallu priodol i greu'r amodau ar gyfer system rheoli ansawdd weithredol. Rydym yn sicrhau bod ein llywodraethiant, ein harweinyddiaeth a'n hatebolrwydd yn effeithiol wrth ddarparu gofal mewn ffordd gynaliadwy.

²³ Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd - Reviews of Health Care Quality: United Kingdom 2016: Raising Standards at <https://www.who.int/publications/i/item/9789240011632>

6.8.2 Gweithlu

Gweithlu

Mae ein system gofal iechyd yn recriwtio, yn cadw, yn datblygu ac ymestyn rolau i sicrhau bod gennym ddigon o bobl hyderus â'r wybodaeth a'r sgiliau cywir ar gael ar yr adeg gywir i ddarparu gofal diogel. Rydym yn gwerthfawrogi ein pobl a'r ymrwymiad a'r gwydnwch a ddangosir ganddynt wrth ddarparu gofal. Mae eu llesiant yn bwysig inni, rydym yn diogelu eu hawliau ac yn eu helpu i deimlo'n dda ac yn hapus yn eu gwaith; ac yn rhoi'r offer, y systemau a'r amgylchedd iddynt allu gweithio'n ddiogel ac effeithiol. Mae ein gwaith o gynllunio'r gweithlu yn canolbwyntio ar fuddsoddi yn ein pobl a meithrin, tyfu a thrawsnewid ein gweithlu i greu gweithlu cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

6.8.3 Diwylliant

Diwylliant

Mae ein system gofal iechyd yn creu'r hinsawdd a'r diwylliant cywir i feithrin ac annog ansawdd a diogelwch systemau, gan werthfawrogi pobl mewn gweithle cefnogol, cydweithredol a chynhwysol fel bod ein pobl yn teimlo'n ddiogel yn seicolegol i allu mynegi pryderon a rhoi cynnig ar syniadau a dulliau newydd. Mae perthnasoedd mewn timau a chyda'r bobl rydym yn eu gwasanaethu yn effeithiol ac yn seiliedig ar dryloywder, atebolrwydd, ymddygiad moesegol, ymddiriedaeth a diwylliant cyfiawn, lle gall pobl ffynnu.

6.8.4 Gwybodaeth

Gwybodaeth

Mae ein system gofal iechyd yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael a'i bod yn cael ei rhannu'n briodol ar gyfer pawb sydd ei hangen. Rydym yn troi data'n wybodaeth drwy driongli perfformiad meintiol ac ansoddol, profiad a dulliau mesur canlyniadau i ddeall ansawdd gwasanaethau, effeithiolrwydd gwaith gwella ac effaith penderfyniadau a wneir. Rydym yn monitro, yn adrodd ac yn uwchgyfeirio dangosyddion drwy ein strwythurau llywodraethiant i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd ar bob lefel o ran dysgu, gwella ac atebolrwydd.

6.8.5 Dysgu, gwella ac ymchwil

Dysgu, gwella ac ymchwil

Mae ein system gofal iechyd yn creu'r amodau a'r gallu i gael dull gweithredu ar draws sefydliadau a systemau ar gyfer dysgu parhaus, gwella ansawdd ac arloesi, ac mae'n mynd ati i'w hyrwyddo. Rydym yn defnyddio gwybodaeth newydd i ddylanwadu ar welliannau mewn ymarfer ac i lywio ein penderfyniadau. Rydym yn sicrhau bod ein gweithgarwch dysgu a gwella yn gysylltiedig â'n gweledigaeth strategol i ddarparu newid trawsnewidiol, ledled y sefydliad. Rydym yn ymrwmo i gymryd rhan mewn ymchwil oherwydd bod sefydliadau sy'n weithgar o ran ymchwil yn darparu ansawdd gofal a chanlyniadau gwell i bobl.

6.8.6 Ymagwedd systemau cyfan

Ymagwedd systemau cyfan

Mae ein system gofal iechyd yn sicrhau bod diogelwch mewn gofal iechyd yn mynd y tu hwnt i ddiogelwch cleifion unigol. Byddwn yn edrych o fewn ein ffiniau sefydliadol a'r tu hwnt iddynt i ddysgu sut y gallwn ddiwallu anghenion esblygol pobl mewn modd parhaus, dibynadwy a chynaliadwy. Byddwn yn cryfhau perthnasoedd ac yn gweithio gyda'n holl bartneriaid i sicrhau canlyniadau da. Mae ein polisiâu yn ymgorffori'r uchelgeisiau ehangach o fewn y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- 6.8.7 Mae'r chwe galluogwr ansawdd yn ategu'r gwaith o weithredu methodoleg a dull o reoli ansawdd, fel y nodir yn y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch (2021).
- 6.8.8 Gyda'i gilydd, mae meysydd ansawdd a galluogwyr ansawdd yn creu ein Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal newydd. Gweler hefyd adran 7.
- 6.8.7 Rhaid rhoi sylw dyladwy i anghenion a dewis pobl o ran y Gymraeg drwy'r lens ansawdd. Gweler adran 11 hefyd.
- 6.8.8 Bydd y ddealltwriaeth, yr hyn a ddysgir a'r arbenigedd sy'n digwydd yn sefydliadau'r GIG ar draws gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd yn arwain at welliannau mewn ansawdd yn ardaloedd daearyddol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac yn cyflymu'r ymdrechion i wella ansawdd ar draws y system iechyd a gofal gyfan yn GIG Cymru.

Negeseuon allweddol

- Diffinnir ansawdd fel diwallu anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu mewn modd parhaus, dibynadwy a chynaliadwy
- Bydd angen i Weinidogion Cymru a chyrrff GIG sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn **Ddiogel**, yn **Amserol**, yn **Effeithiol**, yn **Effeithlon**, yn **Deg** ac yn **Berson-ganolog**
- Mae'r dimensiynau ansawdd hyn yn darparu fframwaith i asesu ansawdd ac i lywio gwelliannau
- Nodwyd galluogwyr ansawdd sy'n sail i'r glasbrint hwn ac sy'n dylanwadu arno er mwyn sicrhau dull gweithredu ar draws y system i wella ansawdd
- Y galluogwyr ansawdd yw **Arweinyddiaeth; Gweithlu; Diwylliant; Gwybodaeth; Dysgu, gwella ac ymchwil ac Ymagwedd systemau cyfan**
- Gyda'i gilydd, mae'r meysydd a'r galluogwyr ansawdd yn ffurfio'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal
- Mae datblygu a gwreiddio system rheoli ansawdd yn cymryd amser, gweledigaeth, uchelgais ac ymrwymiad gweithredol i ddysgu a gwella

7. Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal

- 7.1 Mae adran 47(1) o Ddeddf 2003 yn caniatáu i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi datganiadau safonau mewn perthynas â darparu gofal iechyd gan gyrff GIG Cymru ac ar eu cyfer. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru barhau i gadw golwg ar y safonau a chânt gyhoeddi datganiadau diwygiedig pryd bynnag yr ystyrir bod hynny'n briodol. Cyhoeddwyd y safonau diwethaf o dan y ddarpariaeth hon ym mis Ebrill 2015²⁴.
- 7.2 Mae adran 47(4) o Ddeddf 2003 (fel y'i diwygiwyd gan Ran 2 o Ddeddf 2006) yn ei gwneud yn ofynnol i'r safonau a nodir mewn datganiadau gael eu cymryd i ystyriaeth gan gyrff GIG Cymru wrth gyflawni'r ddyletswydd ansawdd yn Neddf 2006. Yn unol â hynny, mae perthynas anorfod yn bodoli rhwng y ddyletswydd ansawdd a'r safonau a ddyroddir o dan adran 47(1) ac felly dylai safonau o'r fath gyd-fynd â'r ddyletswydd ansawdd a'i hategu. Wrth ddatblygu canllawiau'r ddyletswydd ansawdd ac adolygu Safonau Ebrill 2015, mae Gweinidogion Cymru wedi tynnu Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015 yn ôl ac wedi rhoi Safonau Ansawdd 2023 yn eu lle fel y nodir yn adran 6 o'r canllawiau hyn. Gwneir y newid hwn gan fod cyflwyno'r ddyletswydd Ansawdd yn gyfle i gysoni'r safonau'n uniongyrchol nid yn unig â'r ddyletswydd ond ag arferion rheoli ansawdd ehangach ym maes iechyd hefyd. Mae'r meysydd fel y'u disgrifir yn y canllawiau hyn yn cael eu defnyddio'n helaeth mewn gofal iechyd ac maent yn cael eu gweithredu yn system iechyd ehangach Cymru. Mae'r Safonau Ansawdd newydd wedi'u cynllunio i symleiddio'r gofynion ac i fod yn hyblyg o ran cylch gwaith eang y ddyletswydd ansawdd.
- 7.3 Bydd rhaid hefyd i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (sy'n arfer swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru) ystyried y safonau hyn at ddibenion cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau yn ymwneud â darparu gofal iechyd yng Nghymru o dan adran 70 o Ddeddf 2003. Mae'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal yn darparu fframwaith lefel uchel ar gyfer disgrifio, gweithredu a monitro'r ddyletswydd ansawdd. Mae'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal yn nodi'r hyn y gall pobl yng Nghymru ei ddisgwyl pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau iechyd.
- 7.4 Mae'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal yn darparu strwythur i weithredu'r ddyletswydd ansawdd, boed ar lefel polisi cenedlaethol neu gan ddarparwyr gwasanaethau ac maent yn gymwys ym mhob gwasanaeth a lleoliad clinigol ac anghlinigol. Mae'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal yn integreiddio â'r system iechyd ehangach.
- 7.5 Dylid nodi bod Cymru lachach wedi cyflwyno 'datganiadau ansawdd' i ddisgrifio'r canlyniadau a'r safonau a ddisgwylir mewn gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan nodi'r uchelgeisiau i'w cyflawni'n gyson ledled Cymru.

²⁴ [Fframwaith Safonau Iechyd a Gofal \(llyw.cymru\)](#)

- 7.6 Disgrifiwyd hyn ymhellach yn y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol. Roedd hwn yn egluro y bydd datganiadau ansawdd yn nodi'r disgwyliadau polisi ar gyfer trefniadau cynllunio ac atebolrwydd y GIG yng Nghymru yn y dyfodol.
- 7.7 Mae'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal yn rhai sefydliadol lefel uchel. Caiff safonau gwasanaeth manwl eu llunio gan gyrrff proffesiynol a chynghorol fel arfer.

Ffigur 3

Diagram sy'n dangos y chwe maes ansawdd a ategir gan chwe galluogwr ansawdd. Gyda'i gilydd, maent yn ffurfio'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal.



Negeseuon allweddol

- Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i adolygu'r safonau a ddyroddwyd o dan adran 47 o Ddeddf 2003 a chânt gyhoeddi datganiadau diwygiedig pryd bynnag y maent yn ystyried bod hynny'n briodol
- Mae Safonau Iechyd a Gofal (2015) yn cael eu tynnu'n ôl a'u disodli gan y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal, sy'n cynnwys chwech o feysydd ansawdd a chwech o alluogwyr ansawdd i adlewyrchu'r berthynas annatod rhwng y ddyletswydd ansawdd a'r safonau
- Mae'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal diwygiedig yn sicrhau cyfatebiaeth uniongyrchol rhwng y ddyletswydd ansawdd a'r safonau, gan sicrhau y gall y fframwaith symlach gael ei gymhwyso'n eang ac yn hyblyg
- Mae'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal yn nodi'r safonau lefel uchel y gall pobl yng Nghymru eu disgwyl pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau iechyd
- Bwriad cylch gwaith eang y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal yw darparu strwythur ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd ansawdd, boed hynny ar lefel polisi cenedlaethol neu gan ddarparwyr gwasanaethau a bwriedir iddynt fod yn gymwys i bob gwasanaeth a lleoliad clinigol ac anghlinigol. Maent yn integreiddio â'r system iechyd ehangach.
- Rhagwelir y bydd y ddyletswydd ansawdd yn sicrhau dull cyson o o wella ansawdd ein gwasanaethau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r boblogaeth, drwy gyfrwng y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal

8. Bodloni'r ddyletswydd ansawdd

8.1 Mae'r ddyletswydd ansawdd yn ei gwneud y canlynol yn ofynnol:

8.1.1) Gweinidogion Cymru i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd.

8.1.2) Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru-yn-unig i gyflawni eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd.

8.2 Mae hyn yn golygu bod y ddyletswydd ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru (mewn perthynas â'u swyddogaethau'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd) a chyrrff GIG (mewn perthynas â'u holl swyddogaethau) wneud y canlynol:

8.2.1) Sicrhau bod yr holl benderfyniadau strategol yn cael eu gwneud o safbwynt gwella ansawdd gwasanaethau iechyd a chanlyniadau iechyd i'r boblogaeth.

- 8.2.2) Cyflawni eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ystyried sut byddant yn gwella ansawdd a chanlyniadau'n barhaus.
- 8.2.3) Mynd ati i fonitro cynnydd o ran gwella ansawdd gwasanaethau a chanlyniadau a rhannu'r wybodaeth hon â'u poblogaeth fel mater o drefn.
- 8.2.4) Cryfhau trefniadau llywodraethiant drwy adrodd yn flynyddol ar y camau a gymerwyd i gydymffurfio â'r ddyletswydd ansawdd ac asesu i ba raddau y mae'r canlyniadau wedi gwella.
- 8.2.5) Sicrhau bod sefydliadau GIG yn datblygu eu system rheoli ansawdd gan roi sylw priodol i reoli ansawdd, cynllunio ansawdd, gwella ansawdd a sicrhau ansawdd gyda'r nod o sicrhau amgylchedd dysgu a gwella; a chreu diwylliant o ansawdd mewn sefydliadau.
- 8.3 Yn unol ag adran 47(4) o Ddeddf 2003, rhaid i gyrff GIG ystyried y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal a ddisgrifir yn y canllawiau hyn ac a ddyroddir o dan adran 47(1) o Ddeddf 2003 wrth gyflawni'r ddyletswydd ansawdd.
- 8.4 Ar ben hynny, mae chwe cham y dylai gyrff GIG eu cymryd i gynllunio, darparu a chynnal y ffocws angenrheidiol ar wella ansawdd, a dylai hyn fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o beth yw ansawdd da i'r sefydliad²⁵:

8.3.1) Sicrhau cefnogaeth y Bwrdd

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb ar y cyd dros sicrhau bod y ddyletswydd ansawdd yn cael ei chyflawni a rhaid iddo ddangos hyn yn ei weithredoedd a'i ymddygiad. Rhaid iddo ddangos ei ymrwymiad hirdymor i wella ansawdd wrth bennu'r cyfeiriad strategol a cheisio sicrwydd o ran cyflawni. Dylai hyn fod yn seiliedig ar barodrwydd a chefnogaeth ariannol i ddatblygu'r sgiliau a'r seilwaith ar gyfer gweithredu. Dylai'r Bwrdd roi blaenoriaeth i fentrau cenedlaethol a rhanbarthol ynghyd ag argymhellion sy'n cyd-fynd â ffordd y sefydliad o weithio. Mae angen i'r Bwrdd sicrhau ei fod yn glynu wrth y ddyletswydd ansawdd wrth wneud penderfyniadau, ac yn ceisio sicrwydd o ran penderfyniadau a wneir gan eraill.

8.3.2) Asesu parodrwydd

Mae angen dealltwriaeth ar draws y system o'r hyn y mae ansawdd da yn ei olygu ar gyfer yr ystod eang o wasanaethau. Dylai gyrff GIG ddeall eu 'parodrwydd ar gyfer newid' er mwyn bod yn glir ynghylch ble mae'r bylchau o ran gallu, a chreu cynllun i fynd i'r afael â nhw. Dylent ddefnyddio asesiadau, ymchwiliadau a mesuriadau rheolaidd dros amser i nodi meysydd i wella

25 The Health Foundation (2019) The improvement journey: Why organisation-wide improvement in health care matters, and how to get started <https://www.health.org.uk/publications/reports/the-improvement-journey>

ansawdd. Dylai'r corff GIG ystyried parodrwydd seicolegol yn ogystal â rhoi'r seilwaith, y system lywodraethiant, y ddealltwriaeth o'r system, a'r arweinyddiaeth ar waith i sicrhau newid.

8.3.3) Sicrhau cefnogaeth ehangach gan y sefydliad a chreu gweledigaeth ar y cyd

Dylai cyrff GIG greu gweledigaeth gref ar gyfer gwella ansawdd sy'n cael ei chydabod ac sy'n ysgogi staff ar bob lefel yn y sefydliad. Mae diwylliant o arweinyddiaeth wasgaredig yn rhoi'r hawl, y cyfle a'r hyder i staff ar bob lefel roi cynnig ar syniadau newydd i wella ansawdd sy'n cyd-fynd â gweledigaeth y sefydliad. Dylai arweinwyr hyrwyddo gwelliannau ansawdd sydd wedi'u halinio'n strategol ac sy'n cael eu perchnogi a'u gyrru gan y timau sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd.

8.3.4) Datblygu seilwaith a sgiliau gwella

Mae ar gyrrff GIG angen dull systematig o reoli ansawdd sy'n cynnwys meithrin gallu i wella er mwyn sicrhau bod gan dimau ar bob lefel o'r sefydliad y sgiliau gwella cyffredinol ac arbenigol sydd eu hangen. Dylai hyn gynnwys cyfres o fesurau a system sy'n casglu, yn dadansoddi ac yn rhoi adborth am effaith y gwelliannau. Dylid hefyd ddatblygu modelau gweithredu safonol i safoni prosesau a gweithgareddau craidd, i fynd i'r afael ag amrywiadau mewn ansawdd.

8.3.5) Cysoni a chydlynu gweithgarwch

Mae angen i gyrrff GIG sicrhau bod cynlluniau i wella ansawdd yn gyson â'u strategaeth a'u cenhadaeth gyffredinol a bod rhwystrau'n cael eu nodi a'u goresgyn. Dylai arweinydd sydd a throsolwg o holl weithgareddau'r sefydliad sicrhau bod pob elfen o weithgarwch yn cyd-fynd dros amser. Dylai sicrhau bod dysgu o lwyddiannau a meysydd gwannach yn parhau i lywio'r gwelliannau mewn ansawdd sydd eu hangen.

8.3.6) Cynnal dull gweithredu ar draws y sefydliad

Rhaid i gyrrff GIG fuddsoddi i gynnal y momentwm ar gyfer gwelliannau mewn ansawdd a chydabod bod hon yn daith hir. Mae canolbwyntio ar lwyddiant cynnar yn arwain at yr her o gynnal llwyddiant a pharhau i ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid, gyda'r Bwrdd yn rheoli disgwyliadau ac yn cefnogi staff i gynnal ffocws ar welliannau sy'n cyd-fynd â phwrpas y sefydliad. Dylai'r Bwrdd geisio sicrwydd bod gweithgareddau gwella ansawdd yn gynaliadwy a bod mecanweithiau sicrwydd priodol ar waith i gynnal y gwelliannau.

Negeseuon allweddol

- **Rhaid i Weinidogion Cymru gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd**
- **Rhaid i gyrff GIG gyflawni eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd**
- **Bydd angen i Weinidogion Cymru a chyrff GIG sicrhau bod penderfyniadau strategol yn cael eu gwneud drwy lens ansawdd**
- **Rhaid i Weinidogion Cymru a chyrff GIG gyflawni eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ystyried yn barhaus welliannau mewn ansawdd a chanlyniadau**
- **Rhaid i'r ffocws fod ar wella ansawdd gwasanaethau a chanlyniadau i'r boblogaeth**
- **Dylai cyrff GIG ddatblygu eu system rheoli ansawdd a chreu diwylliant o ansawdd yn eu sefydliadau**
- **Mae chwe cham y dylai cyrff GIG eu cymryd i gynllunio a chynnal y ffocws ar wella ansawdd yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o beth mae ansawdd da yn ei olygu ar gyfer y sefydliad. Dyma nhw:**
 1. **Sicrhau cefnogaeth y Bwrdd**
 2. **Asesu parodrwydd**
 3. **Sicrhau cefnogaeth ehangach gan y sefydliad a chreu gweledigaeth ar y cyd**
 4. **Datblygu seilwaith a sgiliau gwella**
 5. **Cysoni a chydlynu gweithgarwch**
 6. **Cynnal dull gweithredu ar draws y sefydliad**

9. Gofynion adrodd ar ansawdd

- 9.1 Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ansawdd blynyddol ar y camau y maent wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd. Rhaid i'r adroddiad gynnwys asesiad o hyd a lled unrhyw welliant mewn canlyniadau a gyflawnwyd yn rhinwedd y camau hynny, a rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r adroddiad gerbron y Senedd.
- 9.2 Mae'n ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG ac Awdurdod Iechyd Arbennig Cymru-yn-unig gyhoeddi adroddiad ansawdd blynyddol ar y camau y mae wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd i gyflawni ei swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd. Rhaid i'r adroddiad gynnwys asesiad o hyd a lled unrhyw welliant mewn canlyniadau a gyflawnwyd yn rhinwedd y camau hynny.
- 9.3 Mae'r adran hon o'r canllawiau yn rhoi arweiniad ar y gofyniad i gyhoeddi adroddiad ansawdd blynyddol, y dystiolaeth sydd i'w defnyddio i gefnogi asesiad, a chynnal asesiad.
- 9.3.1 Mae'r adroddiad ansawdd blynyddol yn caniatáu i gamau a gymerir gan Weinidogion Cymru a chyrrff GIG a gwelliannau ansawdd gael eu monitro mewn modd tryloyw. Dylai'r adroddiad ddisgrifio'r cynnydd a'r heriau ar eu taith ansawdd i'w poblogaeth a'u rhanddeiliaid perthnasol. Mae angen i adroddiadau ansawdd fod yn ystyrlon i gyrff GIG, eu rhanddeiliaid ac i'n poblogaeth er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddysgu, gwella a rhannu mewn amser real. Dylai strwythur a chynnwys yr adroddiadau ansawdd adlewyrchu ehangder y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal a'r system rheoli ansawdd.
- 9.4 Yn ogystal â'r gofyniad i adrodd ar ansawdd yn flynyddol, cynigir bod cyrrff GIG yn datblygu mecanwaith adrodd 'ar waith bob amser', fel y'i gelwir. Mae 'ar waith bob amser' yn golygu bod sefydliadau'n casglu, yn monitro ac yn sicrhau bod gwybodaeth am ansawdd eu gwasanaethau ar gael yn rhwydd i'w poblogaeth a'u rhanddeiliaid, o fewn y sefydliad a'r tu allan iddo.
- 9.4.1 Mae adrodd 'ar waith bob amser' yn gofyn i sefydliadau fod â dull system gyfan ar gyfer defnyddio gwybodaeth yn rheolaidd ar draws eu system rheoli ansawdd. Mae 'ar waith bob amser' yn annog cydnabod a rhannu arferion da ac uwchgyfeirio ac ymyrryd yn gynnar pan fydd arwyddion yn awgrymu bod angen gweithredu.
- 9.5 Cydnabyddir bod gwaith sylweddol yn cael ei wneud eisoes ar draws y gyfundrefn iechyd mewn perthynas â dangosyddion a mesurau. Y bwriad yw y bydd cyrrff GIG yn defnyddio mecanweithiau gwybodaeth ac adrodd sydd eisoes ar waith lle bynnag y bo modd. Bydd angen iddynt fabwysiadu dull ystywyth o

aeddfedu eu hadroddiad ansawdd wrth i fesurau canlyniadau ddatblygu, wedi'u halinio â'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal.

9.6 Bwriad yr adroddiad ansawdd blynyddol yw crynhoi ac adlewyrchu cynnydd corff GIG o ran gwella ansawdd ei wasanaethau a'r canlyniadau i'r boblogaeth. Rhagwelir y bydd cyrff GIG yn cyfeirio darllenwyr at yr wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiadau 'ar waith bob amser' sy'n amlinellu'r hyn a ddysgwyd a'r gwelliannau a wnaed yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

9.7 Dylai'r adroddiad ansawdd blynyddol edrych yn ôl ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni, gan gynnwys adegau pan nad aeth pethau'n dda o bosibl, a hefyd edrych ymlaen ar flaenoriaethau ac uchelgeisiau ansawdd y sefydliad ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, ynghyd â sut y bydd cynnydd yn cael ei fonitro. Dylid cael cysondeb rhwng adroddiadau blynyddol yn ystod y blynyddoedd dilynol.

9.8 Bydd yr adroddiad ansawdd blynyddol yn disgrifio pa benderfyniadau strategol allweddol y mae'r corff GIG wedi'u gwneud, a sut mae'r ddyletswydd ansawdd wedi cyfrannu at y penderfyniadau hyn.

9.9 Dylid paratoi'r adroddiad ansawdd blynyddol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol. Er mwyn symleiddio'r gofynion adrodd a lleihau dyblygu, awgrymir bod cyrff GIG yn trefnu bod yr adroddiad ansawdd blynyddol yn cyd-fynd â'u proses Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol.

9.10 Bydd gwybodaeth ychwanegol ar gael mewn fframwaith adrodd atodol, fel adnodd ategol.

9.11 Rhai enghreifftiau o'r dystiolaeth i'w defnyddio i asesu'r ddyletswydd ansawdd ac i ba raddau y gwelwyd gwelliant mewn canlyniadau:

9.11.1) Dangosyddion perfformiad, canlyniadau a chyflawni presennol a mesurau o'r System Rheoli Ansawdd

9.11.2) Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion a Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion

9.11.3) Data am farwolaethau

9.11.4) Gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru, megis digwyddiadau a phryderon

9.11.5) Straeon cleifion a staff

9.11.6) Prosesau penderfynu strategol sydd wedi'u llywio gan y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal

9.11.7) Adroddiadau yn dilyn adolygiadau neu arolygiadau allanol gan arolygiaethau a chyrff trwyddedu

9.11.8) Ystyried argymhellion a goblygiadau adroddiadau cenedlaethol arwyddocaol, er enghraifft yn dilyn ymchwiliadau cenedlaethol

9.11.9) Dylid nodi mai enghreifftiau sydd yn y rhestr hon ac nad yw'n gynhwysfawr

9.12 Bydd cyrff GIG yn cynnal asesiad o hyd a lled unrhyw welliant mewn canlyniadau a gyflawnir drwy:

9.12.1) Hunanasesiad

9.12.2) Adolygu ac adborth gan gymheiriaid

9.12.3) Archwiliad clinigol cenedlaethol

9.12.4) Archwiliad mewnol

9.12.5) Adolygiad allanol, er enghraifft gan Swyddfa Archwilio Cymru

9.12.6) Arolygiadau, er enghraifft gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

9.12.7) Dylid nodi mai enghreifftiau sydd yn y rhestr hon ac nad yw'n gynhwysfawr

9.12.8) Cydnabyddir bod cryfderau a gwendidau i'r gwahanol fathau o asesu a amlinellir. Felly, dylai cyrff GIG geisio sicrhau bod amrywiaeth o asesiadau'n cael eu hystyried.

9.13 Mae'n hanfodol bwysig bod cyrff GIG yn mynd ati i ymgysylltu â'u poblogaeth i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni nodau'r ddyletswydd ansawdd.

9.14 Dylid cynnwys gwybodaeth am ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn adroddiadau ansawdd. Mae manteisio ar y Cynnig Rhagweithiol²⁶ a chasglu profiadau pobl drwy wrando ar straeon cleifion a staff yn darparu cyfleoedd monitro drwy ofynion adrodd ar ansawdd.

9.15 Mae'n bwysig sicrhau y glynir wrth Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) wrth gael gafael ar wybodaeth a'i phrosesu er mwyn paratoi ar gyfer y ddyletswydd o ran adroddiadau ansawdd.

²⁶ Disgrifir y Cynnig Rhagweithiol yn nogfen Llywodraeth Cymru (2022) Mwy na geiriau: Cynllun Pum Mlynedd 2022 - 2027 fel darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Mae'n golygu creu diwylliant sy'n rhoi'r cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu cynnig iaith rhagweithiol fel bod pobl yn gallu cael mynediad at ofal, fel partneriaid cyfartal, trwy gyfrwng y Gymraeg. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2022-2027.pdf>

Negeseuon allweddol

- **Rhaid i Weinidogion Cymru a chyrff GIG gyflawni eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd**
- **Rhaid i Weinidogion Cymru a chyrff GIG gyhoeddi adroddiad ansawdd blynyddol sy'n nodi'r camau y maent wedi'u cymryd i sicrhau gwasanaethau iechyd o ansawdd gwell**
- **Rhaid i'r adroddiad ansawdd blynyddol gynnwys asesiad o hyd a lled unrhyw welliant mewn canlyniadau a gyflawnwyd**
- **Mae'r canllawiau hyn yn nodi canllawiau ar gynnal yr asesiad hwn a thystiolaeth i'w gefnogi, yn ogystal â'r gofyniad i gyflwyno adroddiad ansawdd blynyddol**
- **Rhaid i adroddiadau ansawdd blynyddol fod yn adlewyrchiad tryloyw o'r cynnydd a'r heriau ar y daith ansawdd. Dylid nodi'r blaenoriaethau ansawdd arfaethedig a sut y cânt eu monitro**
- **Rhaid i'r adroddiad ansawdd blynyddol asesu unrhyw welliant mewn canlyniadau**
- **Dylai ddangos sut mae'r ddyletswydd ansawdd wedi llywio'r broses o wneud penderfyniadau strategol**
- **Dylai amlinellu'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'r hyn a ddysgwyd a disgrifio sut y mae hynny wedi cael ei rannu**
- **Dylid paratoi'r adroddiad ansawdd blynyddol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol i gyd-fynd â'r broses Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol**
- **Cydnabyddir bod data i gefnogi'r broses adrodd ansawdd yn faes sy'n datblygu ac y bydd yn cymryd amser i gyfres o fesurau canlyniadau fod ar waith. Felly, bydd angen dull ystwyth o ddefnyddio dangosyddion a mesurau**
- **Yn ogystal ag adroddiadau ansawdd blynyddol, anogir cyrff GIG i ddatblygu proses adrodd 'ar waith bob amser' lle maent yn casglu, yn monitro ac yn rhannu gwybodaeth o ansawdd gyda'u poblogaeth yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn**
- **Mae adrodd 'ar waith bob amser' yn hyrwyddo defnyddio gwybodaeth yn rheolaidd fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau a gwella ansawdd. Mae'n cynorthwyo i gydnabod a rhannu arferion da yn ogystal â chaniatáu uwchgyfeirio ac ymyrryd yn gynnar pan fydd angen gweithredu**
- **Mae'n hollbwysig fod cyrff GIG yn mynd ati i ymgysylltu â'u poblogaeth i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni nodau'r ddyletswydd ansawdd**

10. Gwneud penderfyniadau, monitro a sicrwydd

- 10.1 Mae'r ddyletswydd ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a chyrrff GIG feddwl a gweithredu'n wahanol drwy gymhwyso'r cysyniad o ansawdd ar draws pob swyddogaeth yng nghyd-destun y gwasanaethau iechyd ac anghenion iechyd eu poblogaethau.
- 10.2 Mae'n gofyn am wneud penderfyniadau a chynllunio sy'n seiliedig ar ansawdd, er mwyn sicrhau canlyniadau gwell yn y pen draw i bawb sydd angen gwasanaethau iechyd. Mae'n golygu cynnwys pobl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a chydbwysu anghenion tymor byr â chynllunio ar gyfer y tymor hwy; mae'n gofyn am gamau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
- 10.3 Mae angen dull gweithredu ar draws y system gan gydnabod bod y ddyletswydd ansawdd yn gyfrifoldeb ar y cyd.
- 10.4 Mae ffocws y ddyletswydd ansawdd ar ddysgu a gwella, nid ar sancsiynau cosbi pan fydd y rhai y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddynt yn methu â'i rhoi ar waith.
- 10.5 Fodd bynnag, rhaid i gyrrff GIG ystyried sut y gellir integreiddio'r gwaith o weithredu a monitro'r ddyletswydd ansawdd yn effeithiol i fframweithiau, prosesau a gweithdrefnau llywodraethiant corfforaethol sy'n bodoli'n barod. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau perfformiad ac ansawdd presennol.
- 10.6 Wrth gynllunio neu gyflwyno strwythurau a phrosesau newydd, bydd angen ymgorffori'r ddyletswydd ansawdd ynddynt.
- 10.7 Wrth ystyried prosesau adolygu a mecanweithiau sicrwydd, rhaid iddynt hefyd ystyried y ddyletswydd ansawdd. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, cynllunio'r archwiliadau mewnol a'r rhaglenni archwilio clinigol blynyddol.
- 10.8 Yng nghyswllt cyrrff GIG, bydd yn ofynnol i'r Bwrdd geisio sicrwydd bod y ddyletswydd ansawdd yn cael ei chyflawni'n briodol fel cyfrifoldeb ar y cyd ac ar draws y system. O'r herwydd, mae adrodd ar y ddyletswydd ansawdd i'r Bwrdd yn fater i'r holl bwyllgorau; nid dim ond i'r pwyllgor ansawdd a diogelwch.
- 10.9 Wrth geisio sicrwydd gan gyrrff GIG, bydd y pwyllgorau'n ceisio sicrhau bod gwelliannau cynaliadwy i ansawdd yn cael eu gwneud a bod gwelliannau i ansawdd yn cael eu cynnal.
- 10.10 Pan fydd y Bwrdd yn ystyried ac yn cytuno ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r gofrestr risg strategol, dylai hefyd gydymffurfio â'r ddyletswydd ansawdd.
- 10.11 Rhaid i Weinidogion Cymru a chyrrff GIG sicrhau bod y ddyletswydd ansawdd yn cael ei gweithredu a'i monitro'n effeithiol. Rhaid ei hintegreiddio â fframweithiau, prosesau a gweithdrefnau llywodraethiant presennol, gyda diweddariadau rheolaidd i'r pwyllgorau perthnasol a chyfarfodydd bwrdd at ddibenion sicrwydd.

10.12 Bydd cydymffurfio â'r ddyletswydd hefyd yn rhan o'r materion a ystyrir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wrth iddi arolygu ac adolygu'r ddarpariaeth gofal iechyd.

10.13 Mae'r adroddiad ansawdd blynyddol a'r dull 'ar waith bob amser' yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd, i'r corff GIG ei hun, i Lywodraeth Cymru ac i bartneriaid allweddol eraill am y ddyletswydd i sicrhau tryloywder a hygyrchedd gwybodaeth am weithredu'r ddyletswydd ansawdd.

Negeseuon allweddol

- Mae'r ddyletswydd ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a chyrff GIG sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio sy'n seiliedig ar ansawdd ar waith i sicrhau canlyniadau gwell yn y pen draw i bawb sydd angen gwasanaethau iechyd
- Mae angen i ansawdd fod ar waith ar draws y system gyfan; yn cael ei gymhwyso ar draws yr holl wasanaethau clinigol ac anghlinigol yng nghyd-destun anghenion iechyd a llesiant y boblogaeth
- Mae'r ffocws ar ddysgu a gwella, yn hytrach nag ar sancsiynau cosbi mewn achosion o fethu â chyflawni'r ddyletswydd ansawdd
- Rhaid integreiddio'r ddyletswydd i weithdrefnau corfforaethol presennol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, gynllunio, perfformiad, ansawdd, adolygiadau archwilio mewnol
- Rhaid ei ymgorffori ym mhob strwythur a phroses a sefydlir
- Bydd yn ofynnol i'r Bwrdd geisio sicrwydd bod y ddyletswydd ansawdd yn cael ei chyflawni'n briodol fel cyfrifoldeb ar y cyd ac ar draws y system
- Bydd angen i'r Bwrdd geisio sicrwydd bod gwelliannau ansawdd cynaliadwy yn cael eu gwneud, gyda mecanweithiau sicrwydd priodol ar waith i sicrhau bod gwelliannau ansawdd yn cael eu cynnal
- Pan fydd y Bwrdd yn ystyried ac yn cytuno ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r gofrestr risg strategol, dylai hefyd gydymffurfio â'r ddyletswydd ansawdd
- Bydd cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd ansawdd yn cael ei fonitro. Bydd yn cael ei integreiddio â'r mecanweithiau monitro presennol. Rhaid i'r gwahanol fecanweithiau monitro ar draws y gyfundrefn iechyd ymgorffori'r ddyletswydd ansawdd yn eu prosesau
- Bydd yr adroddiad ansawdd blynyddol a'r dull 'ar waith bob amser' yn rhan annatod o'r broses fonitro i sicrhau bod y ddyletswydd ansawdd yn cael ei chyflawni

11. Y Gymraeg

- 11.1 Cydnabyddir bod gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn cael eu darparu mewn gwlad ddwyieithog.
- 11.2 **Mwy na geiriau** (2022) yw cynllun Llywodraeth Cymru i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Ei nod yw cefnogi siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf, oherwydd dylai derbyn gwasanaethau yn Gymraeg fod yn rhan annatod o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- 11.3 Yr uchelgais yw rhoi Cynnig Rhagweithiol i bobl gael eu gofal yn Gymraeg. Cyfrifoldeb darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yw cynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach na chyfrifoldeb ar y claf i orfod gofyn amdanynt.
- 11.4 Mae gallu cael gafael ar wasanaethau yn y Gymraeg yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol sylweddol i ansawdd y profiad cyffredinol a chanlyniadau iechyd a llesiant llawer o siaradwyr Cymraeg.
- 11.5 Mae pobl wedi dweud y gall fod yn anodd cael gafael ar wasanaethau sydd eu hangen arnynt yn Gymraeg, a gallant deimlo'n gyndyn o ofyn os nad yw gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig.
- 11.6 Mae cynllun Llywodraeth Cymru i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn cyd-fynd â'r ddyletswydd ansawdd. Mae'n bwysig bod ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu hymgorffori mewn diwylliant ac arweinyddiaeth, cynllunio ansawdd, cefnogi a datblygu sgiliau'r gweithlu a rhannu arferion gorau drwy ddull galluogi.
- 11.7 Rhaid ystyried gofynion o ran y Gymraeg hefyd drwy lens y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal ac fel rhan annatod o'r system rheoli ansawdd.
- 11.8 Rhaid cynnwys y Gymraeg mewn adroddiadau ansawdd hefyd. Mae manylion ynghylch manteisio ar y Cynnig Rhagweithiol a chasglu profiadau pobl drwy glywed straeon cleifion a staff yn darparu cyfleoedd monitro drwy ofynion adrodd ar ansawdd.

Negeseuon allweddol

- **Mae gallu cael gafael ar wasanaethau yn y Gymraeg yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol sylweddol i brofiad cyffredinol llawer o siaradwyr Cymraeg**
- **Mae gallu cael gafael ar wasanaethau yn y Gymraeg yn gallu gwella ansawdd, diogelwch a chanlyniadau siaradwyr Cymraeg**
- **Rhaid ymgorffori ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y diwylliant ansawdd**
- **Rhaid ymgorffori cyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r Gymraeg mewn adroddiadau ansawdd**

12. Casgliad

- 12.1 Bwriad sylfaenol y ddyletswydd ansawdd yw adeiladu ar y diwylliant cadarnhaol o ansawdd sy'n ganolog i system iechyd Cymru.
- 12.2 Mae'r ddyletswydd ansawdd yn cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau, gweithredu a gwella ar draws y system, gyda'r bwriad yn y pen draw o wella canlyniadau'r boblogaeth.
- 12.3 Mae'r ddyletswydd ansawdd yn gymwys i Weinidogion Cymru o ran eu swyddogaethau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd ac i gyrff GIG (Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig sy'n gweithredu yng Nghymru yn unig) mewn perthynas â'u holl swyddogaethau.
- 12.4 Nid yw'r ddyletswydd ansawdd yn gymwys yn uniongyrchol i wasanaethau gofal sylfaenol na darparwyr gwasanaethau iechyd y tu allan i'r GIG. Y corff GIG sy'n darparu neu'n comisiynu'r gwasanaeth yn uniongyrchol sy'n gyfrifol am y ddyletswydd ansawdd.
- 12.5 Er mai Gweinidogion Cymru a Phrif Weithredwr cyrff GIG sy'n gyfrifol am weithredu'r ddyletswydd ansawdd yn y pen draw, gellir dirprwyo'r cyfrifoldeb dros weithredu a goruchwyllo gweithredol i arweinwyr priodol.
- 12.6 Mae gweithredu'r ddyletswydd ansawdd yn gyfrifoldeb ar y cyd. Mae'n gymwys i bawb mewn gwasanaethau clinigol ac anghlinigol, gan gynnwys llunwyr polisïau Llywodraeth Cymru.
- 12.7 Mae'r canllawiau'n darparu diffiniad o ansawdd at ddibenion rhoi arweiniad. Mae'n amlinellu fframwaith y gellir ei ddefnyddio i asesu a gwella ansawdd drwy ddefnyddio'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal. Mae'r rhain, yn eu tro, yn helpu'r broses o aeddfedu ein systemau rheoli ansawdd.
- 12.8 Mae'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal a nodir yn y canllawiau yn ddyheadau lefel uchel sy'n disgrifio'r hyn y gall pobl yng Nghymru ei ddisgwyl pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau iechyd. Er mwyn sicrhau cyfatebiaeth rhwng y safonau a'r ddyletswydd ansawdd, mae'r Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) yn cael eu tynnu'n ôl a'u disodli gan y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal. Mae'n ofynnol i gyrff GIG ystyried y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal wrth gyflawni'r ddyletswydd ansawdd, ac mae'n ofynnol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (ar ran Gweinidogion Cymru) ystyried y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal wrth gynnal adolygiadau ac ymchwiliadau i ddarpariaeth gofal iechyd gan y cyrff GIG hynny ac ar eu cyfer.
- 12.9 Mae nifer o gamau y dylai sefydliad eu cymryd i baratoi i fodloni'r ddyletswydd ansawdd²⁷.

²⁷ The Health Foundation (2019) The improvement journey: Why organisation-wide improvement in health care matters, and how to get started <https://www.health.org.uk/publications/reports/the-improvement-journey>

- 12.10 Rhoddir ddyletswydd ar gyrff GIG i adrodd yn flynyddol ar y camau y maent wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd ansawdd.
- 12.11 Dylai gyrff GIG ddatblygu mecanwaith adrodd 'ar waith bob amser' er mwyn darparu gwybodaeth amserol am ansawdd eu gwasanaethau i'w poblogaeth a'u rhanddeiliaid.
- 12.12 Rhaid i gyrff GIG sicrhau bod y ddyletswydd ansawdd yn cael ei gweithredu a'i monitro'n effeithiol. Rhaid integreiddio'r ddyletswydd â'r fframweithiau, prosesau a gweithdrefnau llywodraethiant presennol, gyda diweddariadau rheolaidd i gyfarfodydd perthnasol y bwrdd a'r pwyllgorau at ddibenion sicrwydd.
- 12.13 Rhaid ymgorffori ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y diwylliant ansawdd.
- 12.14 Cydnabyddir bod newid diwylliant yn cymryd amser. Mae'r ddyletswydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023, ac o hynny ymlaen bydd angen i gyrff GIG allu dangos sut maent yn cydymffurfio â'r ddyletswydd. Bydd angen cael proses ystwyth ac iteraidd i ddatblygu'r seilwaith ar gyfer proses o adrodd ar ansawdd sydd 'ar waith bob amser' gyda mesurau priodol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
- 12.15 Fodd bynnag, yn ei hanfod bydd angen i egwyddorion methodoleg gwella ansawdd fod yn gadarn yn eu lle er mwyn i Weinidogion Cymru a chyrrff GIG adeiladu ansawdd fel ffordd eang o weithio ar draws y system sy'n rhan annatod o ddiwylliant o ddysgu a gwella parhaus.
- 12.16 Mae angen ein hymdrechion gweithredol cynyddol i sicrhau ffocws diflino ar ansawdd a diogelwch, fel blaenoriaeth uwchlaw popeth arall, yn fwy nag erioed yn hanes y GIG.